**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf SF/CS/0137/11

Rosemary Butler AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru

28 Mawrth 2012

Annwyl Rosemary,

**Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2012 a Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2012**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu ein bod wedi gorfod torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2012 a Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2012 i rym yng Nghymru. Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Iau 29 Mawrth a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012.

Mae'r Gorchmynion hyn yn diwygio Cynllun Pensiwn y Dynion Tân Cymru (Cynllun 1992) a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cynllun 2007), drwy gynyddu cyfraddau cyfraniadau pensiwn y diffoddwyr tân o 1 Ebrill 2012 ymlaen.

Yn rhinwedd adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947 ac adran 12 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (fel y'u cymhwyswyd gan adran 16(3) o Ddeddf 1972 ac adrannau 36 a 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004), fe awdurdodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt i ddiwygio cynllun 1992.

Yn rhinwedd adrannau 34 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, fe awdurdodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt hefyd i ddechrau gweithredu un neu ragor o gynlluniau (newydd) a fyddai'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu pensiynau, lwfansau ac arian rhodd ar gyfer personau a gyflogir gan yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

Trosglwyddwyd y pwerau hyn oedd yn eiddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk
*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cyflwynodd Gweinidogion Cymru gynllun pensiwn newydd yn 2007 (cynllun 2007) gan ddefnyddio eu pwerau yn adrannau 34 a 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ac fe gafodd yr hen gynllun pensiwn diffoddwyr tân (cynllun 1992) ei gau ar gyfer diffoddwyr tân a ymunodd â'r gwasanaeth ar 6 Ebrill 2006 neu wedi hynny.

Nid oedd yn bosibl gosod y Gorchmynion hyd nes bod y trafodaethau â'r cyrff sy'n cynrychioli diffoddwyr tân ynghylch y cyfraddau cyfraniadau uwch wedi'u cwblhau. Roedd yn angenrheidiol hefyd i Drysorlys Ei Mawrhydi roi caniatâd ar gyfer y cyfraddau uwch y cytunwyd arnynt gan eu bod yn llai na'r cyfraddau a gynigiwyd yn flaenorol gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Ni roddodd Trysorlys Ei Mawrhydi ei gytundeb terfynol i'r cyfraddau cyfraniadau yn y Gorchmynion tan 26 Mawrth 2012. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno Gorchmynion tebyg a fydd yn cyflwyno'r un cynnydd yn y cyfraddau cyfraniadau ar gyfer diffoddwyr tân sy'n aelodau o'u cynlluniau â'r rhai sy'n cael eu hamlinellu yn y Gorchmynion hyn.

Bydd y ddau Orchymyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol, ac mae'r ddau Orchymyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi hefyd, sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar y cyd â'r Gorchmynion.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir iawn,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House